Arwyddion Dymunol

gan Meira Shakespear

"Ac ar ôl y tywydd drwg
Fe wnawn arian fel y mwg"
medd yr hen gân yn ddigon hyderus, gan ein sicrhau fod "*arwyddion dymunol o'n blaenau*."

Wn i ddim am wneud arian –
nid oes sôn fod Cymdeithas Gwaith Maes wedi ennill y loteri –
ond mae'n hollol wir fod hoen ac afiaith y gwanwyn yn dra dymunol ar ôl drycin gaeaf.

Erbyn hyn, dylai pob ysgol yng Nghymru fod wedi derbyn poster yn hysbysebu dyddiad cyhoeddi'r gwerifyn diweddaraf yngyd â braslun o'i gynnwys. Ar hyn o bryd, yr ydym fel Cymdeithas yn rhoi cryn bwyslais ar farchnata *Gwaith Maes* ac mae'r poster yn rhan o'r ymgyrch i sicrhau fod pob athro yn gwybod am y safwe a'i hadnoddau.

Os na welsoch chi'r poster, holwch amdano, ac os na chyrhaeddodd yr ysgol, yna byddem yn ddiolchgar iawn pe byddech yn rhoi gwybod i ni trwy gyfrwng y botwm cysylltu uchod.

Y tro hwn yr ydym hefyd yn falch dros ben o gyflwyno ein "injian chwilio" newydd i hwyluso cael hyd i'r hyn y mae arnoch ei angen o'r storfa ddeunyddiau.

Mae swmp yr hyn sydd ar gael yn cynyddu'n sylweddol a chyson, ac yr ydym yn ffyddiog y bydd y dull hwn o gyrchu gwair o'r sgubor yn ei gwneud yn haws o lawer i'w ddefnyddio.

Meira Shakespear

Comisiwn Coedwigaeth yng Nghymru
Forestry Commission in Wales

Rhifyn Nesaf
Tachwedd 2004

Cyfrifoldeb athrawon yw asesu peryglon unrhyw weithgaredd neu ymweliad